# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 27 GORFFENNAF 2017 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | S E Crouch | J P Curtice |
| N J Davies | A M Day | P Downing |
| C R Doyle | M Durke | V M Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| S J Gallagher | L S Gibbard | K M Griffiths |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | B Hopkins | D H Hopkins |
| O G James | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | S M Jones | P Jones |
| L R Jones | J W Jones | E J King |
| E T Kirchner | M A Langstone | M B Lewis |
| R D Lewis | W G Lewis | A S Lewis |
| C E Lloyd | P Lloyd | I E Mann |
| P M Matthews | P N May | D Phillips |
| S Pritchard | A Pugh | J A Raynor |
| B J Rowlands | M Sherwood | R V Smith |
| A H Stevens | R C Stewart | M Sykes |
| M Thomas | L J Tyler-Lloyd | G D Walker |
| L V Walton | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Evans, F M Gordon, J A Hale, H M Morris, C L Philpott, C Richards, K M Roberts, P B Smith, G J Tanner a/ac L G Thomas

35. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Cynghorwyr

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, J P Curtice, A M Day, P Downing, W Evans, R Francis-Davies, E W Fitzgerald, K Griffiths, T J Hennegan, L James, M H Jones, Y V Jardine, L R Jones, S M Jones, E T Kirchner, M A Langstone, A S Lewis, R D Lewis, P Lloyd, P M Matthews, I E Mann, P N May, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D W W Thomas, M Thomas, W Thomas, G D Walker, L V Walton a T M White fudd personol yng Nghofnod 42, “Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl) – Y Diweddaraf am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y CDLl Adnau, yr Adolygiad o'r Sylfaen Dystiolaeth a'r Camau Nesaf."

Swyddog

1) Datganodd H Evans fudd personol yng Nghofnod 42, “Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl) – Y Diweddaraf am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y CDLl Adnau, yr Adolygiad o'r Sylfaen Dystiolaeth a'r Camau Nesaf."

## 36. COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2017;

2) Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017.

## 37. YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

## 38. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

**1) Cydymdeimladau**

**a) Yr Henadur Anrhydeddus a'r Cyn-gynghorydd Mair E Gibbs**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar yr Henadur Anrhydeddus Mair Gibbs. Bu'r Henadur Gibbs yn gwasanaethu cymuned Bonymaen. Hi oedd Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2005 i 2006.

Dangosir ei chyfnodau o wasanaeth isod.

| Awdurdod | O | I |
|---|---|---|
| Cyngor Dinas Abertawe | 11.09.1986 | 31.03.1996 |
| Dinas a Sir Abertawe | 04.05.1995 | 03.05.2012 |

Mae'r cyfnodau hyn yn cynnwys cyfanswm o dros 25 mlynedd o wasanaeth wrth gynrychioli preswylwyr Dinas a Sir Abertawe.

**b) Y Cyn-gynghorydd June Gates**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-gynghorydd June Gates. Bu'r Cynghorydd Gates yn gwasanaethu cymuned Mynydd-bach yn ystod y 1980au cynnar.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**1) Gwobrau Gwasanaeth 2017 y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus**

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod yr awdurdod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer pedair o wobrau cenedlaethol y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus yn y categorïau canlynol:

- Priffyrdd;
- Rheoli Gwastraff;
- Gwasanaethau Adeiladu;
- Menter Orau'r Gweithlu, sy'n cynnwys ein Cynllun Prentisiaethau.

Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Cyngor y Flwyddyn.

Cynhelir y gwobrau ar 7 Medi 2017 yn Rhydychen.

**c) Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

i) Dylai Eitem 12, “Cynllun Rheoli Asedau 2017/2021”, fod yn enw Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes.

ii) Eitem 13, "Aelodaeth Pwyllgorau” - dosbarthwyd fersiwn wedi'i diweddaru.

iii) **Eitem Frys** Hysbysiad o Gynnig Brys a oedd yn gysylltiedig â thrydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe a'r tu hwnt.

Yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd yr Aelod Llywyddol ei farn y dylid ystyried yr hysbysiad o gynnig brys, "Trydaneiddio'r Rheilffordd" fel mater brys.

**Rheswm dros y cynnig brys:** Galluogi Dinas a Sir Abertawe i ymateb ar frys i'r cyhoeddiad annisgwyl a sydyn gan Lywodraeth y DU o ran

diddymu'r cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe.

39. **CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.**

**1) Penodi Prif Weithredwr**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at benodiad Phil Roberts fel Prif Weithredwr Dinas a Sir Abertawe. Roedd yn hapus iawn gyda'r penodiad gan fod Phil Roberts yn swyddog effeithiol ac ardderchog.

**2) Dinas-ranbarth Bae Abertawe – Y Diweddaraf am y Fargen Ddinesig**

Datganodd Arweinydd y Cyngor fod y bwrdd wedi cwrdd yn anffurfiol ar nifer o achlysuron. Roedd y trefniadau llywodraethu yn y broses o gael eu drafftio. Hefyd, cyflwynodd y diweddaraf am y Fargen Ddinesig.

**3) Y Diweddaraf am Stadiwm Liberty**

Datganodd Arweinydd y Cyngor fod cyfarfodydd â pherchnogion Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe'n parhau o ran yr opsiwn o gytundeb newydd ynghylch y stadiwm.

**4) Ymweliad gan Lysgennad Tsieina**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cyfarfod â Llysgennad Tsieina'n gynharach yn yr wythnos. Dywedodd y bu'r cyfarfod yn un cadarnhaol o ran y posibilrwydd o fuddsoddiad Tsieineaidd yn Abertawe a'r dinas-rhanbarth.

**5) Y Diweddaraf am y Ddinas Diwylliant**

Roedd Arweinydd y Cyngor yn falch o gyhoeddi bod Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y Ddinas Diwylliant. Diolchodd i bawb sy'n cymryd rhan yn y cais.

**6) Diddymu'r addewid i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe**

Condemniodd Arweinydd y Cyngor y cyhoeddiad annisgwyl a sydyn diweddar gan Lywodraeth y DU o ran diddymu'r cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe.

**7) Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol**

Datganodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorwyr J E Burtonshaw ac M Sherwood yn rhannu rôl Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r dyfodol ar sail chwarterol. Y Cynghorydd J E Burtonshaw fydd Aelod y Cabinet tan 31 Awst 2017 a bydd y Cynghorydd M Sherwood yn ymgymryd â'r rôl am 3 mis, gan ddechrau ar 1 Medi 2017. Nodir cyfnodau eu swyddi isod:

| Cynghorydd | O | I |
|---|---|---|
| June Burtonshaw | 8 Mai 2017 | 31 Awst 2017 |
| Mary Sherwood | 1 Medi 2017 | 30 Tachwedd 2017 |
| June Burtonshaw | 1 Rhagfyr 2017 | 28 Chwefror 2018 |
| Mary Sherwood | 1 Mawrth 2018 | 31 Mai 2018 |

40. **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.</u>**

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Rhestrir y cwestiynau hynny a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

**1)** Gofynnodd Mrs Mayberry gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd am Gofnod 42, "Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Abertawe – Y Diweddaraf am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y CDLl, yr Adolygiad o'r Sylfaen Dystiolaeth a'r Camau Nesaf".

*i)* *"A yw'r cyngor yn anwybyddu canllawiau Cynulliad Cymru ar gadw safleoedd tir glas a Phapur Gwyn Llywodraeth y DU y dylid defnyddio safleoedd tir llwyd cyn mabwysiadu unrhyw safleoedd tir glas?"*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2)** Gofynnodd Sue Elward gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, "Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8".

*i)* "*Mae gan 'ddeiliad y drwydded' gyfrifoldebau niferus, y gallai unrhyw un ohonynt fod yn destun y drosedd 'methu rheoli tŷ amlfeddiannaeth yn gywir'. Mae cynghorau eraill yn erlyn yn llwyddiannus dan y symleiddiad eang hwn ac mae amodau trwyddedu Cyngor Abertawe'n datgan, 'Mae gan y cyngor y disgresiwn i roi amodau trwyddedu 'eraill' ar waith'. O ystyried hyn, a allwch esbonio pa drosedd y mae cynghorau eraill wedi bod yn ei defnyddio i erlyn yn llwyddiannus landlordiaid sy'n methu rheoli eu tai amlfeddiannaeth (HMO)?*

*Mae tramgwyddo unrhyw amod trwyddedu'n cyfateb i fethu rheoli tŷ amlfeddiannaeth ac nid oes angen unrhyw reswm arall dros erlyn."*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**3)** Gofynnodd Bill Trimby gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, "Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8".

*“Mae Dinas a Sir Abertawe wedi datgan mewn ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorwyr Irene Mann a Peter May:*

- *Nid oes unrhyw ddeiliad trwydded wedi'i erlyn ddwywaith yn unol â Deddf Tai 2004;*
- *Ni fu unrhyw gost i'r trethdalwr y gellid ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeiliaid trwyddedau am gasglu sbwriel.*
- *Ni roddwyd unrhyw gosbau cyfreithiol gan y cyngor am dorri adrannau 30 a 32 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.*
- *Y tro diwethaf i'r cyngor erlyn landlordiaid am fethu cydymffurfio ag amodau trwydded HMO oedd ym mis Mai 2013, ryw 4 blynedd yn ôl.*

*i) Mae Dinas a Sir Abertawe yn datgan hefyd fod gan y cyngor "ymagwedd gadarn" at gamau gorfodi. Sut gall y cyngor ddatgan bod ganddo "ymagwedd gadarn" at gamau gorfodi pan nad yw'n defnyddio'r darpariaethau sydd ar gael iddo yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiannau preswylwyr yr ardal?*

*ii) A all y cyngor roi manylion ei "ymagwedd gadarn" gan nad oes unrhyw dystiolaeth weladwy fod yr ymagwedd hon yn llwyddo?”*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**4)** Gofynnodd John Row gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, “Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8”.

*i) “Tudalen 52, paragraff 2.1. Pam maent yn gwrthod rhoi meintiau ystafelloedd a safonau beiciau yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd, y maent wedi'u cynnwys yn CCA mabwysiedig Caerdydd ar HMO. Mae meintiau ystafelloedd a safonau beiciau'n ystyriaethau pwysig a all ddiogelu ein hardaloedd a hyrwyddo llety o safon uwch i fyfyrwyr.*

*ii) Mae tudalen 72, paragraff 5.12 yn datgan 'oni bai y ceir ystyriaethau pwysig sy'n eu gorbwyso'n sylweddol ynghylch crynodiadau niweidiol'. A allwch esbonio hynny?*

*iii) Tudalen 73, paragraff 5.20. A oes modd i chi egluro?*

*iv) Tudalen 77, paragraff 5.27. A allwch esbonio'r pwyntiau hyn (efallai, bod ystyriaethau pwysig ac/neu amgylchiadau eithriadol yn gorbwyso radiws 50 metr) (ond nid dyma'r ffactor sy'n penderfynu'n derfynol ar bob achlysur) mewn Saesneg syml.*

*v)* *Tudalen 77, paragraff 5.28. A allwch esbonio'r datganiadau hyn (hyd yn oed y cynnig nad yw'n destun terfynau trothwy sy'n fwy na 50 metr, boed hynny'n ystyriaeth bwysig ai peidio?*

*vi)* *Tudalen 78, paragraff 5.31. Nid wy'n deall. Esboniwch pa % fyddai gennych pan fo mwy na 34 o dai mewn stryd fach? A allwch roi'r % ar gyfer strydoedd mwy a chanddynt fwy na 40, 50 a 60 o dai?*

*vii)* *Mae tudalen 78, paragraff 5.32 yn datgan, 'Mewn ardaloedd rheoli, caniateir 1 HMO mewn stryd a chanddi 10 o dai. Yn achos strydoedd a chanddynt 10 eiddo neu lai y tu allan i'r ardal reoli, caniateir 2 eiddo ar y mwyaf. Pam mae gan un 10% a'r llall 20%?"*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**5)** Gofynnodd Jayne Keeley gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, "Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8".

*i)* *"Mae'n ymddangos bod y materion negyddol sy'n gysylltiedig â HMO wedi parhau i achosi poen a phryder i bobl yn Uplands a Brynmill. Mae hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r ffaith nad yw'r amodau trwyddedu'n cael eu gorfodi. Pam rydych wedi methu gorfodi'r amodau hynny, a fyddai wedi helpu i ddiogelu lles preswylwyr Uplands a Brynmill?"*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**6)** Gofynnodd John Williams gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, "Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8".

*i)* *"Yn gynharach y mis hwn, ceisiodd y cyngor basio canllawiau cynllunio atodol i ganiatáu terfyn o 25% mewn rhai rhannau o Ward Uplands. Byddai hyn wedi caniatáu tua 300 HMO arall i gael eu creu. Mae'n amlwg bod y cyngor yn cael anawsterau wrth orfodi'r amodau ar dai amlfeddiannaeth presennol. Sut gall y cyngor ein sicrhau y gallai ymdopi â rheoleiddio hyd yn oed mwy ohonynt?"*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**7)** Gofynnodd John Thomas gwestiynau i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau am Gofnod 50, "Cwestiynau gan y Cynghorwyr – Cwestiwn 8".

*i)* *"Ers 2012, heblaw am y landlordiaid sydd wedi'u herlyn go iawn, faint ohonynt mae'r cyngor wedi cysylltu â hwy ar ôl derbyn cwynion? Pryd a faint ohonynt oedd yn alwadau dilynol?"*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd ac Aelod y Cabinet dros Dai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

41. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - PRIFYSGOL Y DRYDEDD OES.**

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

42. **CYFLWYNO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) ABERTAWE - Y DIWEDDARAF AR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR Y CDLL ADNAU, ADOLYGIAD O'R SYLFAEN DYSTIOLAETH A'R CAMAU NESAF**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd adroddiad, a oedd yn ceisio cadarnhau canfyddiadau'r ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau a'r adolygiad dilynol o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i strategaeth y CDLl, a chymeradwyo camau nesaf proses y CDLl.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi cynnwys Atodiad C yr adroddiad a chymeradwyo'r Adroddiad Ymgynghori ar y CDLl Adnau;

2) Cymeradwyo cyflwyno CDLl Adnau Abertawe, a'r ddogfennaeth ategol a restrir yn Atodiad Ch yr adroddiad, i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer archwiliad annibynnol;

3) Cymeradwyo awdurdod dirprwyedig ar gyfer Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas (neu'r swyddog dirprwyedig priodol) i gytuno ar unrhyw newidiadau bach angenrheidiol i'r CDLl yn y cyfnod cyn ac yn ystod yr archwiliad annibynnol, er mwyn hwyluso gweithrediad effeithlon y broses archwilio;

4) Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni ac amserlen ddiwygiedig ar gyfer y CDLl a nodir yn Atodiad Dd yr adroddiad.

**Sylwer:** Gofynnodd E W Fitzgerald y cwestiynau canlynol:

*i)* *“Ar ôl i'r cyngor gymeradwyo'r Cynllun Adnau ar 16 Mehefin 2016, ar gyfer ymgynghoriad, a oes modd cadarnhau na wnaed unrhyw newidiadau i ffiniau unrhyw un o'r safleoedd strategol ers hynny?*

*ii)* *Nododd y Strategaeth a Ffefrir fod angen 3,210 o gartrefi newydd yn y Parth Canolog er mwyn i bobl allu byw a gweithio yn yr un ardal. Faint o gartrefi parhaol sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Cynllun Adnau a pha newidiadau i brosesau sydd wedi cynyddu/lleihau'r ffigur gwreiddiol?*

*iii)* *Mae'r adroddiad yn nodi bod diffyg yn yr isadeiledd carthffosiaeth a disgwylir i ddatblygwyr dalu am unrhyw welliannau. Mae Dŵr Cymru wedi gofyn am eglurhad ynghylch y cyfraniadau hyn a chydnabyddir bod posibilrwydd o anghysondeb yn yr amserlenni. A ydych yn cytuno y gallai problemau â'r isadeiledd carthffosiaeth achosi oedi o ran*

*dichonoldeb safle? A ydych hefyd yn cytuno bod hon yn broblem sy'n destun pryder i Lywodraeth Cymru (tudalen 76), gan nodi bod angen costio gwelliannau i isadeiledd ac y gall effeithio'n negyddol ar ddichonoldeb/amserau safleoedd a'r broses o'u cyflwyno yn y pendraw, a dyna pam cynhaliwyd cynhadledd i gynllunwyr ar y broblem hon ym mis Ionawr eleni?*

*iv) Mae'r adroddiad Dynodiad Llain Las a Lletem Las (GBGWD) (Mehefin 2016) yn datgan bod angen rhywbeth i amddiffyn y tir, a oedd yn cynnwys SD C, yn erbyn cyfuno. Fodd bynnag, drwy roi'r ymagwedd hon at GBGWD ar waith, yr unig gwestiwn oedd a ddylai'r tir fod yn lletem las neu'n llain las. A ydych yn cytuno na ddatrysoch y cwestiwn hwn ond yn lle hynny aethoch ati yn y GBGWD i leihau'n sylweddol y tir a fyddai'n cael* ***unrhyw*** *fath o amddiffyn yn erbyn cyfuno? A ydych hefyd yn cytuno nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r ymagwedd gam wrth gam a'r prosesau a ddisgrifir yn GBGWD, nac yn cael ei gyfiawnhau ar sail amgylchiadau eithriadol, a bod hyn yn tanseilio hygyrchedd y penderfyniad cynllunio a wnaed ar y mater hollbwysig hwn?*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 43. <u>DATGANIAD YMRWYMIADAU POLISI.</u>

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor (Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaethau) adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu amlinelliad o ymrwymiadau polisi'r cyngor i Ddinas a Sir Abertawe ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

1) Mabwysiadu ymrwymiadau polisi Abertawe.

**Sylwer:**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y cwestiwn canlynol:

*i) "Tudalen 108, paragraff 2.3. A all Arweinydd y Cyngor gadarnhau bod £1bn dros bum mlynedd yn gynnydd ar y cyllidebau presennol? Pa ganran yw'r cynnydd a sut bydd yn effeithio ar gyllid fesul disgybl?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**b)** Gofynnodd y Cynghorydd P N May y cwestiwn canlynol:

*i) "Faint o Hysbysiadau o Gosb Benodol sydd wedi'u cyflwyno oherwydd torri amodau trwydded tai amlfeddiannaeth?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 44. AROLYGIAD ESTYN O WASANAETHAU ADDYSG YR AWDURDOD LLEOL I BLANT A PHOBL IFANC 2013 - Y DIWEDDARAF AR Y CYNNYDD WRTH YMATEB I'R PUM ARGYMHELLIAD, GORFFENNAF 2017.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi'r cynnydd diweddaraf o ran bodloni'r pum argymhelliad a gafwyd yn Adroddiad Arolygiad Estyn.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd A M Day y cwestiwn canlynol:

*i) "Faint o Hysbysiadau o Gosb Benodol sydd wedi'u cyflwyno o ran absenoldebau o'r ysgol a faint yw gwerth yr hysbysiadau hynny?"*

Datganodd Aelod Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 45. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2017-2021.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn cynnig Cynllun Rheoli Asedau sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

1) Mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2017-2021 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley y cwestiynau canlynol:

*i) "A ellir cyflwyno'r diweddaraf am yr Adolygiad o Storfeydd?*

*ii) A ellir rhannu copi o'r astudiaeth dichonoldeb y cyfeirir ati ar dudalen 140 'Gwarediadau' â'r cynghorwyr?*

*iii) A ellir rhannu copi o adroddiad JLL y cyfeirir ato ar dudalen 141, 'Buddsoddiadau Eiddo' â'r holl gynghorwyr?*

*iv) A ellir cyflwyno'r diweddaraf am safle Felindre?*

Datganodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 46. AELODAETH PWYLLGORAU.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

**1) Coleg Gŵyr Abertawe**
Dileu enw'r Cynghorydd R V Smith.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd O G James.

**2) Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe**
Dileu enw'r Cynghorydd L V Walton.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd P Jones.

**PENDERFYNWYD** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Archwilio**
Dileu enw'r Cynghorydd R V Smith.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd S Pritchard.

**2) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Lleihau Tlodi**
Ychwanegu enw'r Cynghorydd O G James.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd T M White.

**3) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Diogelu**
Dileu enw'r Cynghorydd L V Walton.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.

**4) Pwyllgor y Rhaglen Graffu**
Dileu enw'r Cynghorydd N J Davies.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd P Jones.

## 47. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2016-17

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu Adroddiad Blynyddol Craffu 2016-2017, er gwybodaeth. Amlinellodd yr adroddiad waith craffu'r cyfnod hwnnw.

## 48. EITEM FRYS

Yn unol â pharagraff 100B (4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd yr Aelod Llywyddol ei farn y dylid ystyried yn y cyfarfod yr "Hysbysiad o Gynnig Brys a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr R C Stewart, C E Lloyd, J A Raynor, D H Hopkins, R Francis-Davies, M Thomas, J E Burtonshaw, M Sherwood, M C Child, A S Lewis, W Evans a C A Holley” o ran trydaneiddio'r rheilffordd am y rhesymau a roddwyd.

## 49. HYSBYSIAD O GYNNIG BRYS A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR R C STEWART, C E LLOYD, J A RAYNOR, D H HOPKINS, R FRANCIS-DAVIES, M THOMAS, J E BURTONSHAW, M SHERWOOD, M C CHILD, A S LEWIS, W EVANS A C A HOLLEY.

**Rheswm dros y cynnig brys:**
Galluogi Dinas a Sir Abertawe i ymateb ar frys i'r cyhoeddiad annisgwyl a sydyn gan Lywodraeth y DU o ran diddymu'r cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe.

Cynigiwyd y cynnig canlynol gan y Cynghorydd R C Stewart ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd C A Holley.

*"Mae'r cyngor hwn yn condemnio'n gryf y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i beidio â chyflawni'r cynllun i drydaneiddio rheilffordd de-orllewin Cymru rhwng Caerdydd ac Abertawe.*

*Mae'r cyngor hwn yn condemnio'r ffaith y gwnaed y penderfyniad hwn gan yr Ysgrifennydd dros Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru heb unrhyw ymgynghoriad naill ai'n lleol neu â Llywodraeth Cymru, ar y diwrnod pan ddaeth Senedd y DU i ben am yr haf, gan atal Aelodau Seneddol lleol rhag cael y cyfle i ofyn cwestiynau am y penderfyniad a chraffu arno.*

*Mae'r rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog dros Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ddiddymu'r cynllun i drydaneiddio, sef tarfu ar bobl, yn wirion, yn sarhaus ac yn drahaus tuag at bobl a busnesau Abertawe a de-orllewin Cymru.*

*Rydym yn atgoffa'r Gweinidog fod y cyn-brif weinidog David Cameron, cyn-weinidogion dros drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, wedi addo'r buddsoddiad hwn ar achlysuron niferus. Cytunwyd ar y buddsoddiad ar sail tystiolaeth economaidd, adfywio ac amgylcheddol gref. Nid yw'r dystiolaeth honno wedi newid.*

*Mae'n rhaid i ni ddod i'r casgliad, felly, fod gweinidogion y DU wedi camarwain gwleidyddion lleol, arweinwyr busnes a phobl Abertawe a de-orllewin Cymru ac mae hyn yn hollol annerbyniol.*

*Rydym yn nodi ein siom fod Llywodraeth y DU wedi datgan ei chefnogaeth am brosiect Cross Rail 2 gwerth £30bn, ers y cyhoeddiad na fydd y cynllun i drydaneiddio'n cael ei gyflawni ar ran Abertawe. Mae hyn yn dangos trahauster a difaterwch am bobl de Cymru a rhannau eraill o'r DU ac yn tanlinellu bod Llywodraeth Dorïaidd y DU yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Llundain.*

*Mae'r cyngor hwn yn ailddatgan bod angen buddsoddiad mewn isadeiledd trafnidiaeth modern ar y rhanbarth hwn a chanolfan y rhanbarth er mwyn sicrhau'r ffyniant y mae'r rhanbarth yn ei haeddu yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae gan y cyngor a phobl y rhanbarth bryderon mawr am effaith amgylcheddol ac economaidd tymor hir parhau â threnau diesel, yn hytrach na'r cyflenwad pŵer ystyriol o'r amgylchedd, effeithlon a chynaliadwy y mae trydaneiddio'n ei gynnig.*

*Er ein bod yn cefnogi cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd yn gwahardd cerbydau petrol a diesel yn y DU o 2040, rydym wedi'n drysu ac yn credu y dylid estyn y gwaharddiad hwn i'r rhwydwaith trenau ac y dylid cael gwared ar drenau diesel yn llwyr hefyd erbyn 2040. Rydym yn erfyn ar Lywodraeth y DU i fynd ati ar unwaith i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy megis Morlyn Llanw Bae Abertawe fel mater*

*brys, er mwyn i gerbydau trydan y dyfodol gael eu pweru gan ynni adnewyddadwy glân ac i'w dyheadau gael eu diwallu.*

*Felly, mae'r cyngor hwn yn:*

*1. Galw ar Weinidog y DU ar Drafnidiaeth i ddiddymu'r penderfyniad hwn ar unwaith a chyflawni'r cynllun i drydaneiddio Abertawe, gan archwilio'r dichonoldeb o estyn y broses drydaneiddio i'r gorllewin o Abertawe.*

*2. Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Gwladol ac Ysgrifennydd perthnasol Cabinet Llywodraeth Cymru, gan amlinellu ein pryderon fel a nodir yn y cynnig hwn.*

*3. Gofyn i'r Arweinydd ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Gwladol, gan geisio cyfarfod brys ag arweinwyr awdurdodau lleol de Cymru yn Abertawe cyn gynted â phosib.*

*4. Galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn am gyfarfod brys â Llywodraeth Cymru i geisio ariannu drwy gyfalaf ychwanegol i gwblhau'r gwaith trydaneiddio i Abertawe a'r tu hwnt.*

*5. Galw ar yr Ysgrifenyddion Gwladol i esbonio sut daeth Llywodraeth y DU o hyd i £1.3bn i ariannu cytundeb â'r DUP pan na ellid dod o hyd i £430m at ddibenion trydaneiddio.*

*6. Galw ar Lywodraeth y DU i estyn y gwaharddiad arfaethedig ar geir petrol a diesel i drenau.*

*7. Ailadrodd ei gefnogaeth gref ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe ac yn galw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau'r cyllid ar gyfer y Morlyn Llanw cyn gynted ag y bo modd, gan dderbyn yr holl argymhellion a wnaed yn Adroddiad Hendry.*

*I gloi, mae'r cyngor hwn yn condemnio'n ddiamwys y cyhoeddiad i beidio â thrydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe. Mae'n bradychu pobl Abertawe a'r rhanbarth yn llwyr, gan ddangos trahauster gweinidogion Llywodraeth y DU, a bydd y penderfyniad, oni bai y caiff ei ddiddymu, yn arwain at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol tymor hir sylweddol i Abertawe a rhanbarth de-orllewin Cymru.*

Cynigiodd y Cynghorydd P M Black ddiwygiad a oedd yn dileu'r gair Arweinydd yn 2) a 3) uchod ac yn ei newid i "Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol". Mynegodd y Cynghorydd R C Stewart a C A Holley eu bod yn derbyn y diwygiad.

Felly, roedd sylwedd yr Hysbysiad o Gynnig Brys fel a ganlyn:

*“Mae'r cyngor hwn yn condemnio'n gryf y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i beidio â chyflawni'r cynllun i drydaneiddio rheilffordd de-orllewin Cymru rhwng Caerdydd ac Abertawe.*

*Mae'r cyngor hwn yn condemnio'r ffaith y gwnaed y penderfyniad hwn gan yr Ysgrifennydd dros Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru heb unrhyw ymgynghoriad naill ai'n lleol neu â Llywodraeth Cymru, ar y diwrnod pan ddaeth Senedd y DU i ben am yr haf, gan atal Aelodau Seneddol lleol rhag cael y cyfle i ofyn cwestiynau am y penderfyniad a chraffu arno.*

*Mae'r rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog dros Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ddiddymu'r cynllun i drydaneiddio, sef tarfu ar bobl, yn wirion, yn sarhaus ac yn drahaus tuag at bobl a busnesau Abertawe a de-orllewin Cymru.*

*Rydym yn atgoffa'r Gweinidog fod y cyn-brif weinidog David Cameron, cyn-weinidogion dros drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, wedi addo'r buddsoddiad hwn ar achlysuron niferus. Cytunwyd ar y buddsoddiad ar sail tystiolaeth economaidd, adfywio ac amgylcheddol gref. Nid yw'r dystiolaeth honno wedi newid.*

*Mae'n rhaid i ni ddod i'r casgliad, felly, fod gweinidogion y DU wedi camarwain gwleidyddion lleol, arweinwyr busnes a phobl Abertawe a de-orllewin Cymru ac mae hyn yn hollol annerbyniol.*

*Rydym yn nodi ein siom fod Llywodraeth y DU wedi datgan ei chefnogaeth am brosiect Cross Rail 2 gwerth £30bn, ers y cyhoeddiad na fydd y cynllun i drydaneiddio'n cael ei gyflawni ar ran Abertawe. Mae hyn yn dangos trahauster a difaterwch am bobl de Cymru a rhannau eraill o'r DU ac yn tanlinellu bod Llywodraeth Dorïaidd y DU yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Llundain.*

*Mae'r cyngor hwn yn ailddatgan bod angen buddsoddiad mewn isadeiledd trafnidiaeth modern ar y rhanbarth hwn a chanolfan y rhanbarth er mwyn sicrhau'r ffyniant y mae'r rhanbarth yn ei haeddu yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae gan y cyngor a phobl y rhanbarth bryderon mawr am effaith amgylcheddol ac economaidd tymor hir parhau â threnau diesel, yn hytrach na'r cyflenwad pŵer ystyriol o'r amgylchedd, effeithlon a chynaliadwy y mae trydaneiddio'n ei gynnig.*

*Er ein bod yn cefnogi cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd yn gwahardd cerbydau petrol a diesel yn y DU o 2040, rydym wedi'n drysu ac yn credu y dylid estyn y gwaharddiad hwn i'r rhwydwaith trenau ac y dylid cael gwared ar drenau diesel yn llwyr hefyd erbyn 2040. Rydym yn erfyn ar Lywodraeth y DU i fynd ati ar unwaith i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy megis Morlyn Llanw Bae Abertawe fel mater brys, er mwyn i gerbydau trydan y dyfodol gael eu pweru gan ynni adnewyddadwy glân ac i'w dyheadau gael eu diwallu.*

*Felly, mae'r cyngor hwn yn:*

1. *Galw ar Weinidog y DU ar Drafnidiaeth i ddiddymu'r penderfyniad hwn ar unwaith a chyflawni'r cynllun i drydaneiddio Abertawe, gan archwilio'r dichonoldeb o estyn y broses drydaneiddio i'r gorllewin o Abertawe.*

2. *Gofyn i Arweinwyr y Grŵp Gwleidyddol ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Gwladol ac Ysgrifennydd perthnasol Cabinet Llywodraeth Cymru, gan amlinellu ein pryderon fel a nodir yn y cynnig hwn.*

3. *Gofyn i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Gwladol, gan geisio cyfarfod brys ag arweinwyr awdurdodau lleol de Cymru yn Abertawe cyn gynted â phosib.*

4. *Galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn am gyfarfod brys â Llywodraeth Cymru i geisio ariannu drwy gyfalaf ychwanegol i gwblhau'r gwaith trydaneiddio i Abertawe a'r tu hwnt.*

5. *Galw ar yr Ysgrifenyddion Gwladol i esbonio sut daeth Llywodraeth y DU o hyd i £1.3bn i ariannu cytundeb â'r DUP pan na ellid dod o hyd i £430m at ddibenion trydaneiddio.*

6. *Galw ar Lywodraeth y DU i estyn y gwaharddiad arfaethedig ar geir petrol a diesel i drenau.*

7. *Ailadrodd ei gefnogaeth gref ar gyfer Morlyn Llanw Bae Abertawe ac yn galw ar Lywodraeth y DU i gadarnhau'r cyllid ar gyfer y Morlyn Llanw cyn gynted ag y bo modd, gan dderbyn yr holl argymhellion a wnaed yn Adroddiad Hendry.*

*I gloi, mae'r cyngor hwn yn condemnio'n ddiamwys y cyhoeddiad i beidio â thrydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe. Mae'n bradychu pobl Abertawe a'r rhanbarth yn llwyr, gan ddangos trahauster gweinidogion Llywodraeth y DU, a bydd y penderfyniad, oni bai y caiff ei ddiddymu, yn arwain at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol tymor hir sylweddol i Abertawe a rhanbarth de-orllewin Cymru.*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y cyngor, "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais fel a ganlyn:

| **O blaid (44 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | C A Holley | P M Matthews |
| P M Black | B Hopkins | P N May |
| M C Child | D H Hopkins | S Pritchard |
| S E Crouch | O G James | A Pugh |
| J P Curtice | L James | J A Raynor |
| N J Davies | Y V Jardine | M Sherwood |
| P Downing | J W Jones | R V Smith |
| C R Doyle | P Jones | A H Stevens |
| M Durke | S M Jones | R C Stewart |
| V M Evans | E T Kirchner | M Sykes |
| W Evans | A S Lewis | D W W Thomas |
| R Francis-Davies | M B Lewis | M Thomas |
| L S Gibbard | W G Lewis | L V Walton |
| K M Griffiths | C E Lloyd | T M White |
| T J Hennegan | - | - |

| **Yn erbyn (8 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |

| | | |
|---|---|---|
| S J Gallagher | L R Jones | W G Thomas |
| D W Helliwell | M A Langstone | L J Tyler-Lloyd |
| P R Hood-Williams | B J Rowlands | - |

| **Ymatal (0 Cynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Withdrawn from meeting due to declarable interest (0 Councillors)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo a mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig.

50. **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd naw (9) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 1**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y canlynol:

*i)* *"A all Aelod y Cabinet roi'r diweddaraf am y broses o osod taenellwyr ym mlociau uchel yr awdurdod ac amserlen ar ei chyfer?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 8**

**a)** Gofynnod y Cynghorydd P N May:

i) *"A all Aelod y Cabinet roi mwy o wybodaeth am yr 'achosion eraill sydd yn yr arfaeth' y cyfeirir atynt yn yr ymateb ysgrifenedig? Faint ohonynt sydd, a phryd bydd yr awdurdod yn gweld y canlyniad?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.57 pm

**CADEIRYDD**